

## **Trosglwyddo carthffosydd preifat a draeniau ochrol i gwmnïau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru**

### ***Beth yw carthffosydd preifat a draeniau ochrol?***

#### ***Carthffos breifat***

Pibell sy'n mynd â dŵr o fwy nag un eiddo yw carthffos breifat, ac nid yw'r cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn berchen arni nac yn gofalu amdani. Perchnogion neu feddianwyr yr eiddo sydd wedi eu cysylltu â hwy sy'n eu cynnal ar hyn o bryd.

Nid yw nifer o berchnogion eiddo yn ymwybodol y gallai fod carthffos ar eu heiddo y maen nhw'n gyfrifol amdani.


Felly, yn aml iawn, nid oes gan berchnogion carthffosydd preifat ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldeb dros gynnal ac atgyweirio, ac nid oes ganddynt unrhyw drefniadau cydweithredu rhwng perchnogion eiddo sydd â chyfrifoldeb ar y cyd.

Mae costau atgyweirio neu gynnal carthffos breifat yn annisgwyl yn aml ac weithiau'n eithriadol o gostus.

#### ***Draen ochrol***

Draen yw pibell sy'n mynd â dŵr o un eiddo i garthffos gyhoeddus. Mae draeniau yn perthyn i berchennog yr eiddo y maent wedi'u cysylltu ag ef, hyd yn oed os ydynt yn mynd o dan eiddo rhywun arall. Mae gan bron iawn pob eiddo ddraen breifat, a pherchennog yr eiddo sy'n gyfrifol am ei chynnal a'i hatgyweirio. Mae gan rai eiddo ddraeniau a rennir, er enghraifft bloc o fflatiau. Mae perchnogion yr eiddo hyn yn gyfrifol am eu draeniau ar y cyd.

Draen ochrol yw'r rhan o ddraen sy'n gorwedd y tu allan i ffin eiddo. Mae draeniau ochrol un ai wedi'u cysylltu â charthffos breifat sy'n arllwys i garthffos gyhoeddus, neu yn uniongyrchol â charthffos gyhoeddus. Perchnogion unigol eiddo sy'n gyfrifol am ddraeniau ochrol. Gall draeniau ochrol orwedd o dan dir preifat neu gyhoeddus, gan gynnwys priffyrdd.



## Cefndir

Mae ein Datganiad Sefyllfa Polisi Strategol ar Ddŵr a gyhoeddwyd yn 2009 yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i frw ymlaen i ddatblygu Rheoliadau yn 2011 i hwyluso trosglwyddo carthfossydd preifat a draeniau ochrol yng Nghymru. Roedd hyn yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU ar 15 Rhagfyr 2008 y byddai'r trosglwyddo'n digwydd o 2011.

Daeth yr ymrwymadau hyn gan y Llywodraeth yn dilyn adolygiad manwl o berchnogaeth carthfossydd preifat, a ymchwiliodd i'r problemau a wynebid o ganlyniad i'w perchnogaeth.

Cyfrifoldeb eu perchnogion yw carthfossydd preifat a draeniau ochrol ar hyn o bryd, a hwy, yn gyffredinol, yw perchnogion a meddianwyr yr eiddo y maent yn eu gwasanaethu. Amcangyfrifwyd bod hyd at 50 y cant o eiddo yng Nghymru a Lloegr wedi eu cysylltu â charthffos breifat. Nid oes cofnodion cynhwysfawr o ble mae carthfossydd preifat wedi'u lleoli nac ym mha gyflwr y maent.

Fel rheol, os nad oes problem, nid yw perchnogion cartrefi yn ymwybodol eu bod yn gyfrifol am garthffos breifat neu ddraen ochrol neu'r ddau, sy'n gwasanaethu eu heiddo, hyn yn oed pan fydd yn parhau y tu hwnt i ffin eu heiddo. Pan geir problemau, gall y costau sy'n gysylltiedig â chynnal ac atgyweirio carthfossydd preifat fod yn uchel ac weithiau caiff ei rannu rhwng rhywfaint o gartrefi yn unig, gan arwain at feichiau ariannol sylweddol i'r rheini sy'n gyfrifol amdanynt. Gall anghydfodau godi o ran cyfrannu tuag at atgyweirio, er enghraifft, gall carthffos wasanaethu deg eiddo a byddai'n gyfrifoldeb iddynt ar y cyd. Gallai rhwystr penodol ond effeithio ar y pedwar

eiddo olaf ac efallai y byddai'r chwe eiddo arall yn gwrthod cyfrannu at y costau atgyweirio. Mae hefyd yn bosibl bod y rhwystr wedi digwydd mewn eiddo na effeithiwyd arno gan y rhwystr hwnnw, a bod y perchennog yn gwrthod mynediad i'r eiddo hwnnw ar gyfer gwaith atgyweirio. Golyga'r gwahanol berchnogion, ynghyd â'r diffyg gwaith cynnal wedi'i gynllunio, nad yw cymdeithas yn cael y budd y byddai rheolaeth integredig ar gyfer y system garthffosiaeth yn ei gynnig.

Roedd yr adolygiad o garthffosydd preifat yn edrych ar ystod o ddewisiadau i ymdrin â'r problemau a geid gyda pherchnogaeth. Wedi ystyriaeth fanwl, daeth Llywodraeth Cymru i'r casgliad mai trosglwyddo oedd yr ateb mwyaf cynhwysfawr i'r problemau hyn gan gael gwared â beichiau annheg cynnal ac atgyweirio oddi ar berchnogion.

Mae penderfyniadau ynghylch sut y gweithredir y trosglwyddo wedi'u cytuno yn dilyn gwaith ymchwil, ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymgynghoriad ar y cyd gyda'r Llywodraeth ar 'Drosglwyddo Carthffosydd Preifat – Opsiynau Gweithredu' a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2007.

Drwy gydol y broses, mae ymatebwyr yn gyson wedi mynegi y byddai'n well ganddynt drosglwyddo carthffosydd preifat a draeniau ochrol presennol yn awtomatig dros nos.

### ***Sut gwnaed y penderfyniad hwn?***

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) ar y Rheoliadau a'r Cynlluniau arfaethedig ar gyfer trosglwyddo carthffosydd preifat a draeniau ochrol i gwmnïau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr rhwng 26 Awst a 18 Tachwedd 2010. Fel rhan o'r ymarfer ymgynghori, cynhaliodd Llywodraeth Cymru a Defra bedwar gweithdy ymgynghori, dau yng Nghymru a dau yn Lloegr, ym mis Hydref a mis Tachwedd. Daeth nifer dda i'r gweithdai a rhoddwyd cyfle i randdeiliaid i rannu profiadau ymarferol a gwneud sylwadau ar y Rheoliadau drafft. Hefyd, archwiliasant sut y gallai rhanddeiliaid weithio gyda'i gilydd i rannu gwybodaeth a rhoi gwybod am weithrediad y trosglwyddo.

Derbyniwyd dros gant o ymatebion i'r ymgynghoriad yng Nghymru a Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Defra i ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a pharatoi crynodeb o'r ymatebion.

Cyhoeddwyd y crynodeb o'r ymatebion ac ymateb y Llywodraeth ar 31 Mawrth 2011. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cyfrannu at ddrafft terfynol y Rheoliadau.

Cytunodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y rheoliadau hyn ar 21 Mehefin 2011 a daethant i rym ar 1 Gorffennaf 2011.

### ***Pryd fydd y trosglwyddo yn digwydd?***

Daeth y rheoliadau ar gyfer y trosglwyddo i rym ar 1 Gorffennaf 2011, a bydd y berchnogaeth a chyfrifoldeb yn cael eu trosglwyddo dros nos i'r cwmnïau carthffosiaeth ar 1 Hydref 2011.

Dyma'r unig eithriadau i'r trosglwyddo:

- a) Gorsafoedd pwmpio carthion preifat a'u prif bibellau codi. Mae'n ofynnol i'r Cwmnïau Dŵr a Charthffosiaeth fabwysiadu, gam wrth gam, gyda'r holl orsafoedd pwmpio yn cael eu trosglwyddo i berchnogaeth Cwmnïau Dŵr a Charthffosiaeth erbyn mis Hydref 2016. Mae angen sgiliau ac adnoddau gwahanol i reoli ac atgyweirio ar orsafoedd pwmpio carthion preifat, ac mae'r diwydiant dŵr wedi gofyn am ragor o amser i drosglwyddo'r asedau hyn.
- b) Carthffosydd dŵr wyneb preifat sy'n draenio'n uniongyrchol i gyrsiau dŵr.
- c) Gwaith trin carthion sy'n eiddo preifat, tanciau septig a charthbyllau; a
- d) Draeniau preifat o fewn ffin yr eiddo.

### ***Pam fydd y trosglwyddo yn digwydd?***

Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn credu mai trosglwyddo yw'r unig ateb cynhwysfawr i amryw o broblemau sy'n wynebu perchnogion cartrefi o ran carthffosydd preifat a draeniau ochrol. Bydd hefyd yn helpu i fynd i'r afael â diffyg rheolaeth integredig dros y rhwydwaith carthffosiaeth gyfan, a darparu gwell effeithlonrwydd o ran ymdrech, stiwardiaeth amgylcheddol a gwariant. Hefyd, bwriedir adeiladu'r holl garthffosydd newydd sy'n cysylltu â'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus i safon benodedig a'u mabwysiadu yn awtomatig fel rhan o'r rhwydwaith cyhoeddus.

### ***Pwy fydd yn talu am y trosglwyddo a faint fydd hyn yn ei gostio?***

Telir am gost y trosglwyddo drwy gynyddu'r elfen carthffosiaeth ar filiau cwsmeriaid. Amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd y cynnydd rhwng £3 a £14 y flwyddyn. Fodd bynnag, am nad yw cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn ymwybodol o union faint a chyflwr carthffosydd preifat hyd nes bydd y trosglwyddo wedi'i wneud, nid yw union gost y trosglwyddo yn glir.

### ***Pa fuddion a ddaw yn sgil y trosglwyddo?***

Dyma'r buddion a ddaw yn sgil y trosglwyddo:

- a) Gwell eglurder o ran berchnogaeth
- b) Rheoli'r rhwydwaith carthffosiaeth yn fwy effeithiol; a
- c) Chael gwared â'r baich o gynnal oddi ar berchnogion cartrefi drwy rannu'r gost rhwng yr holl gwsmeriaid.

## ***A oes angen i mi roi gwybod i'm cwmni carthffosiaeth os oes gen i garthffos breifat neu draen ochrol?***

Na, nid oes angen i chi wneud unrhyw beth er mwyn i'ch peipiau drosglwyddo. Bydd unrhyw beipiau a fydd yn bodloni'r meini prawf trosglwyddo yn trosglwyddo yn awtomatig.

## ***Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto?***

Ym mis Chwefror 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddatganiad Sefyllfa Polisi Strategol ar Ddŵr a oedd yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa, gan adlewyrchu datblygiadau allweddol mewn polisi dŵr yng Nghymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf a thynnu sylw at feysydd a fydd yn flaenoriaeth yn y dyfodol.

Roedd y datganiad diwygiedig yn cynnwys yr ymrwymadau a ganlyn:

- Dymuna Llywodraeth Cymru atal unrhyw garthffosydd preifat eraill rhag cael eu creu a bydd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i weithredu'r darpariaethau yn y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 a fydd yn sicrhau bod pob carthffos newydd yn cael ei mabwysiadu.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod carthffosydd newydd o safon y gellir eu mabwysiadu, a byddwn ni'n cyhoeddi safonau adeiladu gofynnol, gyda Llywodraeth y DU.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Dŵr Cymru Welsh Water, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill â diddordeb mewn pennu lefelau gwasanaeth a gyflawnir gan garthffosydd a drosglwyddwyd a nodi lle mae'r angen mwyaf am weithredu ar garthffosydd preifat.

## ***Sut y byddaf i'n derbyn rhagor o wybodaeth ynghylch trosglwyddo?***

Dros yr wythnosau nesaf bydd Dŵr Cymru'n cysylltu'n uniongyrchol â phob cartref yn rhoi gwybodaeth am y trosglwyddo. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ei wefan yn:

[http://www.dwrcymru.com/wel/company\\_information/business\\_operations/private\\_sewers/index.asp](http://www.dwrcymru.com/wel/company_information/business_operations/private_sewers/index.asp)

## **Deddfwriaeth a Rheoliadau**

Rhoddwyd y pwerau i drosglwyddo carthffosydd a draeniau ochrol preifat yn y gwelliannau i adran 105 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 a gyflwynwyd yn Neddf Dŵr 2003.

Mae'r broses drosglwyddo wedi'i gorfodi drwy Reoliadau'r Diwydiant Dŵr (Cynlluniau i Fabwysiadu Carthffosydd Preifat) 2011.

Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwmnïau carthffosiaeth hysbysu eu cwsmeriaid o'u bwriad i gymryd cyfrifoldeb am bob carthffos a draen ochrol yn eu hardal. Nodir hyn yn benodol yng nghynllun Gweinidogion Cymru.

Hysbysiadau statudol fydd y rhain o dan adran 102 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 a fydd yn nodi'r bwriad i ddod yn berchennog ar y carthffosydd a nodir yn yr hysbysiad.